

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Penllwyn

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol Penllwyn yn ysgol wledig sydd â naws gartrefol a chroesawgar yn perthyn iddi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yno. Mae'r holl staff yn cyfrannu at greu a chynnal ethos Cymreig lle mae bron bob disgybl yn falch o siarad Cymraeg. Mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dueddol o siarad Saesneg â'u cyfoedion mewn sefyllfaoedd anffurfiol.



Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael ystod o fedrau llythrennedd a rhifedd addas, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, mae ychydig o'r gweithgareddau ysgrifennu sy'n cael eu darparu ar gyfer y disgyblion hynaf yn rhy gyfyngedig, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd a'u gallu i weithio'n gynyddol rhydd ac estynedig. Ar y cyfan, maent yn datblygu eu medrau digidol yn briodol, er nad yw'r disgyblion hynaf yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.



Mae gan athrawon berthynas waith gynhyrchiol gyda disgyblion. At ei gilydd, maent yn darparu gwersi difyr ar gyfer disgyblion, sydd yn eu hysgogi i fwynhau ystod addas o weithgareddau. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn barod i ddysgu ar gychwyn sesiynau. O ganlyniad, mae ychydig iawn o'r plant hynaf yn amharu ar lif gwersi. Mae disgyblion yn dechrau gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag ar y cyfan, nid yw disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd yn aelodau o bwyllgorau fel y cyngor ysgol, yn dylanwadu'n gyson ar waith yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gystadlu yn y gymuned leol, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn twrnameintiau chwaraeon, sioeau lleol ac eisteddfodau.

Mae Ysgol Penllwyn wedi ei ffedereiddio gydag Ysgol Penrhyn-coch. Mae'r pennaeth, sydd yn gweithio ar draws y ddau safle, yn ymgorffori'r arwyddair 'gyda'n gilydd, gallwn lwyddo'. Er bod gan yr ysgolion eu cymunedau unigryw, maent hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn rhan o un ffederasiwn, ac yn cynnal gweithgareddau ar y cyd ar gyfer disgyblion a rhieni yn rheolaidd.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu**

**A2** **Datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, gan gynnwys eu gallu i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, gwella gwaith eu hunain, a dylanwadu ar waith yr ysgol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penllwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 45 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 39 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 4.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 56.4% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2016 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/03/2013 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/11/2022